Cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestri etholiadol 2015 yng Nghymru

Dengys y canlyniadau fod y sefyllfa yng Nghymru ar 1 **Rhagfyr 2015** fel a ganlyn:

- Roedd **cofrestri seneddol** 85% yn gyflawn a 93% yn gywir;
- Roedd **cofrestri llywodraeth leol** 84% yn gyflawn a 93% yn gywir.

Dengys y canlyniadau hyn fod y cofrestri yng Nghymru yr un mor gywir â'r cofrestri ledled Prydain Fawr yn gyffredinol, tra bod y cofrestri yng Nghymru ychydig yn fwy cywir.

Ffigur 1: Cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestri etholiadol yng Nghymru, Rhagfyr 2015

Sylfaen (amhwysol)
Seneddol: Cyflawnrwydd (1,476) Cywirdeb (1,369)
Llywodraeth leol: Cyflawnrwydd (1,504) Cywirdeb (1,381)

Cyflawnrwydd

Oherwydd maint y sampl, dim ond canlyniadau cyfunol ar gyfer Prydain Fawr a gafwyd ar sail yr amcangyfrifon a luniwyd ar gyfer cofrestri 2014. Fodd bynnag, lluniwyd amcangyfrifon ar gyfer Cymru ar sail cofrestri mis Rhagfyr 2010 a chofrestri mis Ebrill 2011 (er bod hynny gan ddefnyddio methodoleg wahanol).[1]

Amcangyfrifwyd bod cofrestri mis Rhagfyr 2010 yng Nghymru, gan gynnwys rhai llywodraeth leol seneddol, 82% yn gyflawn. Fodd bynnag, oherwydd maint y sampl

[1] I gael rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr astudiaeth honno, gweler Pennod 2 yn *Electoral Registration in 2011* (Gorffennaf 2014, Saesneg yn unig) http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0006/169890/Electoral-Commission-Census-2011.pdf

yn 2011, cafwyd cyfwng hyder uchel (+/- 8 a 9 y cant) ac o ganlyniad i hynny ni allwn fod yn sicr bod y cywirdeb wedi cynyddu ers 2011.

Oherwydd maint y sampl, nid oes modd dadansoddi data'r gwledydd unigol yn llawn fesul newidyn demograffig fel y gellir gwneud ar gyfer Prydain Fawr, ond mae'r cynyddiadau yn y sampl ar gyfer Cymru a'r Alban yn hwyluso rhywfaint o ddadansoddi.

Yn ôl y disgwyl, lle mae'r data yn dangos amrywiad ystadegol sylweddol mewn lefelau cyflawnrwydd fesul nodwedd ddemograffig yng Nghymru, yr un nodweddion sy'n effeithio ar gyflawnrwydd ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol.

Demograffeg

Fel y gwelir yn y gwaith ymchwil hwn ac mewn gwaith ymchwil blaenorol, oedran, symudedd a deiliadaeth sy'n effeithio fwyaf ar lefelau cofrestru ac mae'r ffactorau hyn yn cael effaith debyg yng Nghymru[2]:

Oedran: Fel y gwelir yn hanesyddol, ac fel y gwelir ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol, mae lefelau cyflawnrwydd yn cynyddu yn unol ag oedran. Yng Nghymru, ceir cyflawnrwydd o 93% ymhlith pobl 55 oed a throsodd, sy'n uwch o lawer na'r cyflawnrwydd ymhlith pobl rhwng 18 a 34 oed (72%) a phobl rhwng 35 a 54 oed (84%).

Symudedd: Ceir cydberthynas gadarn rhwng cyflawnrwydd a'r amser y mae rhywun wedi bod yn byw yn ei gyfeiriad presennol. Yng Nghymru, ceir cyflawnrwydd o 94% ymhlith pobl sydd wedi byw yn eu cyfeiriad presennol ers mwy na 16 o flynyddoedd o gymharu â dim ond 30% ymhlith pobl sydd wedi byw yn eu cyfeiriad presennol ers llai na blwyddyn.

Deiliadaeth: Fel ym Mhrydain Fawr, mae'r lefelau uchaf o gyflawnrwydd i'w gweld ymhlith pobl sy'n berchen ar eu heiddo yn llwyr (95% yn gyflawn) ac mae'r lefelau isaf i'w gweld ymhlith pobl sy'n rhentu'n breifat (61% yn gyflawn).

Tabl 1: Cyflawnrwydd fesul nodwedd allweddol, Rhagfyr 2015.

		Cymru (Llywodraeth leol)	Prydain Fawr (Llywodraeth leol)
Ardaloedd trefol/gwledig	Trefol	84%	84%
	Gwledig	85%	86%
Rhyw	Gwryw	85%	84%
	Benyw	83%	86%
Oedran	18-34	72%	69%
	35-54	84%	86%
	55+	93%	95%
Deiliadaeth	Yn berchen ar yr eiddo yn llwyr	95%	95%

[2] Mae'r canlyniadau yn y paragraffau canlynol yn cyfeirio at y cofrestri llywodraeth leol oni nodir fel arall.

	Morgais/Cydberchnogaeth	86%	89%
	Yn rhentu gan y Cyngor[3]	79%	78%
	Yn rhentu'n breifat	61%	57%
Grŵp economaidd-gymdeithasol	AB	90%	88%
	C1	87%	83%
	C2	83%	86%
	DE	77%	80%
Oedolion ar yr aelwyd	1	80%	82%
	2	85%	85%
	3 i 5	84%	83%
Amser yn byw yn y cyfeiriad	Hyd at flwyddyn	30%	27%
	Rhwng 1 a 2 flynedd[4]	71%	69%
	Rhwng 2 a 5 mlynedd	80%	85%
	Rhwng 5 ac 10 mlynedd	88%	92%
	Rhwng 10 ac 16 mlynedd	92%	94%
	16 mlynedd +	94%	96%
Anabledd	Cyflwr meddyliol[5]	78%	76%
	Cyflwr corfforol	87%	90%
	Dim	83%	83%
Wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015[6]	Do	91%	92%
	Naddo	66%	68%

Sylfaen (amhwysol): Cymru – 1,504; Prydain Fawr – 11,648.

Cywirdeb

Bu cynnydd mewn cywirdeb cofrestri ledled Prydain Fawr, o 87% yn 2014 i 91% yn 2015. Mae lefelau cywirdeb yng Nghymru, sef 93%, yn uwch na'r lefelau ym Mhrydain Fawr.

Prin yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gofrestr, gydag ychydig yn fwy o wallau sylweddol ar y cofrestri Seneddol ac ychydig yn fwy o fân wallau ar y gofrestr llywodraeth leol, sef patrwm sydd hefyd yn wir ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol.

Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o wallau a welwyd ar gofrestri llywodraeth leol mis Rhagfyr 2015. Fel mewn mannau eraill o Brydain Fawr, mae'r rhan fwyaf o **wallau mawr** – sef y gwallau hynny a fyddai'n rhwystro rhywun rhag pleidleisio neu'n galluogi rhywun i bleidleisio pan na ddylent gael gwneud hynny – yn ymwneud â chofnodion sy'n cyfeirio at unigolion nad ydynt yn byw yn yr eiddo mwyach (7%). Mae hyn yn llai na chyfran y gwallau o'r math hwn a gofnodwyd ar gyfer Prydain

[3] Mae'r categori yma yn cyfuno rhentwyr cyngor (cyflawnrwydd 79%) a rhentwyr cymdeithas tai (cyflawnrwydd 72%).
[4] Sylfaen fach (sylfaen amhwysol 91).
[5] Sylfaen fach (sylfaen amhwysol 53).
[6] Data'r ymatebwyr yn unig.

Fawr (9%). Mae'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol sylweddol a gallai fod o ganlyniad i'r lefelau symudedd is yng Nghymru: dengys ein canlyniadau fod 40% o'r rheini yng Nghymru wedi byw yn eu cyfeiriad presennol ers mwy nag 16 o flynyddoedd neu ar hyd eu hoes, o gymharu â 33% ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol.

Nid oes unrhyw wallau mawr math c wedi'u cofnodi ar gofrestri Cymru, o gymharu â 0.3% o'r cofnodion ar gofrestri Prydain Fawr.

Tabl 2: **Mathau o wallau ar y cofrestri llywodraeth leol yng Nghymru, Rhagfyr 2015**.

	Llywodraeth leol	Prydain Fawr
Cyfanswm y gwallau mawr	**7.2%**	**9.4%**
Gwallau mawr – (a)	7.1%	8.8%
Neb o'r un enw yn byw yn y cyfeiriad		
Gwallau mawr – (b)	**0.1%**	**0.3%**
Enw cyntaf a/neu gyfenw yn anghywir ar y gofrestr	0.0%	0.1%
Dim enw cyntaf a/neu gyfenw ar y gofrestr	0.0%	0.0%
Wedi'u nodi fel dinasyddion y DU/Iwerddon/y Gymanwlad[7]	0.1%	0.2%
Gwallau mawr – (c)	**0.0%**	**0.3%**
Yr enw ar y gofrestr yn cyfateb i enw anghymwys ar yr arolwg	0.0%	0.1%
Cyrhaeddwyr - dyddiad geni ar goll neu'n anghywir	0.0%	0.1%
Heb eu nodi fel dinasyddion yr UE	0.0%	0.1%
Yn gywir gyda mân wallau	**10.0%**	**10.4%**
Enw cyntaf/cyfenw ar y gofrestr wedi'i gamsillafu	0.8%	1.0%
Enw cyntaf/cyfenw ar y gofrestr yn anghyflawn	0.6%	0.5%
Enw canol ar goll o'r gofrestr	7.6%	7.8%
Llythrennau cyntaf enw canol wedi'u camsillafu neu'n anghyflawn ar y gofrestr	0.3%	0.1%
Enw canol yn anghywir ar y gofrestr	0.1%	0.1%
Rhywun nad oes ganddo enw canol ond mae enw canol ar y gofrestr (ymatebwyr yn unig)	0.1%	0.2%
Cyfenw blaenorol yw'r cyfenw, neu tybir mai cyfenw blaenorol ydyw[8]	0.6%	0.5%
Enw cyntaf/canol neu gyfenw mewn trefn wahanol ar y gofrestr	0.0%	0.1%

[7] Ni ddylai hyn fod wedi'i nodi ar gyfer yr etholwyr hyn.

[8] Cymerwyd hyn yn ganiataol os oedd enw cyntaf unigolyn yn paru a'r cyfenw yr oeddent wedi ei roi yn paru ag un aelodau eraill eu cartref on nid y cyfenw ar y gofrestr etholiadol

Dyddiad geni cyrhaeddwr yn gynharach ar y gofrestr	0.0%	0.0%

Sylfaen (amhwysol): Cymru – 1,381; Prydain Fawr - 10,871.

Ymhlith y **mân wallau** a gofnodwyd – sef y gwallau hynny na fyddai'n rhwystro rhywun rhag bwrw pleidlais – gwallau lle mae enw canol ar goll yw'r rhan fwyaf ohonynt. Mae cyfran y mân wallau a gofnodwyd ar gyfer y cofrestri yng Nghymru yn cyfateb i'r gyfran a gofnodwyd ar gyfer y cofrestri ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol.